

**Crynodebau o Brosiectau Cynulleidfaoedd Newydd 3 – 2024 /  
Summaries of New Audiences 3 Projects – 2024**

<b><i>Al Naeem</i></b>	
Cylchgrawn golygyddol yw <i>Al Naeem</i> sy'n archwilio diwylliannau amrywiol y gymuned Ddu a Mwslimaidd yng Nghymru a'r tu hwnt. Bydd y cyllid yn cefnogi trydydd rhifyn y cylchgrawn a chydweithio gyda'r grŵp drama a barddoniaeth Somaliaid Cymreig, Young Queens, ar brosiect cylchgrawn, yn y gobaith y bydd y cydweithio hwn yn cyfrannu erthygl nodwedd i drydydd rhifyn y cylchgrawn.	<i>Al Naeem</i> is an editorial magazine exploring the diverse cultures of the Black & Muslim community in Wales and beyond. Funding will support the third edition of the magazine and collaboration with Welsh Somali drama and poetry group, Young Queens, on a zine project with the ambition for this collaboration to contribute a feature to the third edition of the magazine.
<b>Atebol: Prosiect hyrwyddo cyfrolau i oedolion gwasgnod newydd Sebra i gynulleidfaoedd newydd</b>	
Bydd Atebol yn adeiladu ar lwyddiant cynnar Sebra, eu gwasgnod newydd a chyfoes sydd â ffocws cryf ar ddatblygu cynulleidfaoedd a thalent newydd. Bydd yn cynnwys pecyn creu deunydd digidol blaengar i hyrwyddo llyfrau, prosiect gweledol a gweithio gyda chwmni allanol arbenigol i ddatblygu arddull cloriau Sebra.	Atebol will build on the early success of Sebra, their new and contemporary imprint which has a strong focus on developing new audiences and talent. This will include a cutting-edge digital material creation package to promote books, a visual project and working with a specialist external company to develop the style of Sebra's covers.
<b>Atebol: Lleisiau Newydd</b>	
Bydd Atebol yn defnyddio'u harian i gyhoeddi a hyrwyddo llyfrau sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan flaenoriaethu cyhoeddi cyfrol o fonologau a gefnogwyd trwy gynllun Cynulleidfaoedd Newydd 1.	Atebol will utilise their funds to publish and promote books that reach new and diverse audiences, prioritizing the publication of a volume of monologues developed through New Audiences 1 funding.
<b><i>Barddas</i></b>	
Penodwyd Nia Morais dro yn ôl fel cydlynnydd 'Lleisiau Newydd Barddas' a bydd y prosiect yma, o dan ei harweiniad hi, yn ehangu ar lwyddiannau ei gwaith o wahodd amryw o 'leisiau newydd' i gyfrannu cerdd i'w chyhoeddi yng nghylchgrawn <i>Barddas</i> drwy greu a chynnal digwyddiadau cyhoeddus mewn gwyliau llenyddol a nosweithiau barddonol.	Nia Morais was recently appointed as the coordinator of 'Lleisiau Newydd Barddas' ('Barddas New Voices'). This project, to be led by her, will build upon the successes of her work of inviting various 'new voices' to contribute poems to be published in <i>Barddas</i> magazine by creating and holding public events at literary festivals and poetic evenings.

<b>Barn</b>	
Bydd y prosiect yn cefnogi <i>Barn</i> i ddarganfod lleisiau newydd i'w datblygu. Bydd deiliad y swydd newydd yn datblygu perthynas gyda sefydliadau a chyrrff amrywiol er mwyn canfod y lleisiau hyn ac yn trefnu rhaglen waith a fydd yn datblygu eu sgiliau iaith a'u hyder er mwyn mynegi eu barn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob llais newydd yn cael ei baru gyda mentor. Hefyd, bydd ail elfen y prosiect yn galluogi <i>Barn</i> i drefnu a chynnal gweithgareddau a chreu deunyddiau newydd i gyflwyno cynnwys <i>Barn</i> mewn modd hygyrch ac apelgar i gynulleidfaedd newydd, ac yn benodol i gynulleidfaedd sy'n llai hyderus eu Cymraeg.	The project will support <i>Barn</i> to discover new voices for development. The holder of a new post will develop relationships with various organizations and bodies to find these voices and organize a work program that will develop their language skills and confidence to express their opinion through the medium of Welsh. Each new voice will be matched with a mentor. Also, the second element of the project will enable <i>Barn</i> to organize and hold events and create new materials to present <i>Barn's</i> content in an accessible and appealing way to new audiences, and specifically to audiences who are less confident in their Welsh.
<b>Buzz Culture</b>	
Bydd <i>Buzz Culture</i> yn cyflwyno cynnwys diwylliannol amrywiol sy'n adlewyrchu tapestri amlweddol diwylliant Cymru. Bydd y cynnwys hwn yn cael ei arddangos yng nghylchgrawn <i>Buzz</i> , ar eu gwefan, llwyfannau ar-lein eu partneriaid sefydliadol ac awduron. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno drwy chwilio am a chomisiynu cynnwys sy'n portreadu'n ddilys naratifau, profiadau a safbwyntiau amrywiol o fewn Cymru. Bydd yn adeiladu ar strwythurau presennol i ddarparu cymorth ariannol i awduron ac yn cyrraedd cynulleidfaedd amrywiol trwy llwyfannau print traddodiadol a digidol a gweithgareddau cymunedol i hwyluso deialog, hyrwyddo cyfnewid diwylliannol a dathlu'r hunaniaeth Gymreig.	<i>Buzz Culture</i> will deliver diverse cultural content that reflects the multifaceted tapestry of Welsh culture. This will be showcased in <i>Buzz</i> magazine, across their website, online platforms, partner organisations and writers. The project will be delivered through sourcing and commissioning content that authentically portrays diverse narratives, experiences and perspectives within Wales. It will build upon existing structures to provide financial support to writers and will reach diverse audiences through traditional print and digital platforms as well as community activities that facilitate dialogue, promote cultural exchange and celebrate the Welsh identity.
<b>Calon Books</b>	
Llyfr ffeithiol yw <i>My Bittersweet Cynefin</i> a fydd yn cael ei ysgrifennu gan Jessica Dunrod a'i gyhoeddi gan Calon Books. Mae Saint Kitts a Nevis yn ffocws arbennig yn ymchwil y llyfr, gan mai nhw oedd trefedigaeth lwyddiannus gyntaf Prydain ac roedd Cymry yn chwarae rhan allweddol fel arweinwyr a masnachwyr. Bydd y gronfa Cynulleidfaedd Newydd yn cefnogi ymweliad ymchwil Jessica â Saint Kitts a Nevis, lle bydd yn cael gweld dogfennau archif cynradd a bydd hefyd yn cael cyfle i gyfweld â thrigolion yr ynnysoedd a chasglu hanesion llafar. Bydd y gwaith hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'r llyfr,	<i>My Bittersweet Cynefin</i> is a non-fiction book which will be written by Jessica Dunrod and published by Calon Books. Saint Kitts and Nevis are a particular focus of the book's research, as they were Britain's first successful colony and Welsh people played key roles as leaders and traders. The New Audiences fund will support Jessica's research visit to Saint Kitts and Nevis, where she will have access to primary archive documents and will also have the opportunity to interview residents of the islands and gather oral histories. This work will feed directly into the book, ensuring that it contains the most up-to-

<p>gan sicrhau ei fod yn cynnwys y deunydd mwyaf diweddar a pherthnasol posibl pan gaiff ei gyhoeddi a bod hanes sydd ddim yn cael ei adrodd yn aml yn cael effaith hyd yn oed yn fwy.</p>	<p>date and relevant content possible when it is published and that this rarely told history makes an even greater impact.</p>
<p><b>Cwlwm</b></p>	
<p>Mae'r prosiect hwn yn ceisio atgyfnerthu a datblygu gwaith <i>Cwlwm</i> trwy gomisiynu cyfres o erthyglau ffurf hir o safon uchel i'w cyhoeddi ar ar Sadyrnau rhwng Mehefin a Rhagfyr 2024.</p>	<p>This project seeks to consolidate and develop the work of <i>Cwlwm</i> by commissioning a series of high quality long-form articles to be published on Saturdays between June and December 2024.</p>
<p><b>Firefly Press: Let Your Imagination Fly – Young Readers Wales 24</b></p>	
<p>Mae <i>Let Your Imagination Fly Wales 24</i> yn rhaglen farchnata wedi'i thargedu a'i brandio gan Firefly Press gyda'r nod o gynyddu cynulleidfa teitlau allweddol i gynnwys darllenwyr newydd yng Nghymru. Nod y prosiect yw trefnu ymweliadau awduron ag ysgolion, llyfrgelloedd neu ganolfannau cymunedol mewn ardaloedd incwm isel a/neu ethnig amrywiol ledled Cymru, i dargedu dylanwadwyr a darpar ddarllenwyr newydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chydweithio ag asiantaethau hyrwyddo darllen i gael mwy o blant o Gymru i ddarllen er pleser a gwella llythrennedd bore oes ledled y wlad.</p>	<p><i>Let Your Imagination Fly Wales 24</i> is a targeted and branded marketing programme from Firefly Press aimed at growing the reach of key titles to new readers in Wales. The project aims to organise author visits to schools, libraries or community centres in low income and/or ethnically diverse areas across Wales, to target influencers and potential new readers through social media, and to collaborate with reading promotion agencies to get more children from Wales reading for pleasure and improve childhood literacy nationwide.</p>
<p><b>Firefly Press: Let Your Imagination Fly – New Reading from Wales</b></p>	
<p>Bydd y prosiect yn cefnogi comisiynu, datblygu a chyhoeddi teitlau newydd gan awduron o gymunedau amrywiol, heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru.</p>	<p>The project will support the commissioning, development and publication of new titles by writers from diverse, underrepresented communities in Wales.</p>
<p><b>Golwg</b></p>	
<p>Bydd Golwg yn cynnal cyfres o ddsbarthiadau meistr fydd yn cyffwrdd â sawl cyfrwng er mwyn hyfforddi, arfogi a rhoi plattform i leisiau newydd. Bydd yr hyfforddiant gan arbenigwyr yn amrywio o weithdai creu 'stribedi comic' i sesiynau ysgrifennu darnau barn, creu cynnwys fideo ffurf-fer ar gyfer TikTok, cyfrannu erthyglau lleol, ysgrifennu adolygiadau a chynnal cyfweiliadau sain. Daw'r prosiect i ben wrth gyhoeddi gwaith y cyfranogwyr ar draws eu plattfformau print a digidol, o gomic <i>Wcw a'i Ffrindiau</i> i sianel TikTok golwg360, o gylchgrawn</p>	<p>Golwg will hold a series of masterclasses that will touch on several media formats in order to train, equip and give a platform to new voices. The expert-led training will vary from workshops on creating 'comic strips' to sessions on writing opinion pieces, creating short-form video content for TikTok, contributing local articles, writing reviews and conducting audio interviews. The end of the project will be the publication of the work of the participants who will participate across print and digital platforms, from the comic <i>Wcw and His Friends</i></p>

<p><i>Golwg</i> i bodlediadau. Bydd <i>Golwg</i> yn gweithio'n benodol gyda phobol ifanc a siaradwyr newydd (er nid y nhw'n unig) er mwyn ysbrydoli'r don nesaf o bobol i greu cynnwys difyr a safonol yn y Gymraeg.</p>	<p>to the TikTok channel <i>golwg360</i>, from <i>Golwg</i> magazine to podcasts. <i>Golwg</i> will work especially closely (though not exclusively) with young people and new learners in order to inspire the next wave of people to create content in the Welsh-language that is both entertaining and of standard.</p>
<p><b>Graffeg: The Neurons Books Plan</b></p>	
<p>Bydd y prosiect hwn yn cefnogi datblygiad a chyhoeddiad y gyfres '<i>The Neurons</i>' gan Graffeg. Cyfres o lyfrau cryno, hawdd eu deall i blant, gyda chymeriadau darluniadol, yn ceisio esbonio a datblygu ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol ymhlith plant 3–5 a 5–7 oed. Bydd pob testun yn cael ei gyhoeddi mewn argraffiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân mewn fformatau print, e-lyfrau a llyfrau llafar.</p>	<p>This project will support development and publication of the forthcoming title series '<i>The Neurons</i>' by Graffeg. A series of compact, easy-to-understand children's books with illustrated characters aimed at explaining, and developing awareness of neurodivergent conditions in children aged 3–5 and 5–7. Each text will publish in separate English and Welsh editions in print, eBook and audiobook formats.</p>
<p><b>Graffeg: The Neurons Marketing Plan</b></p>	
<p>Bydd y prosiect hwn yn sefydlu ymwybyddiaeth brand o'r gyfres '<i>The Neurons</i>', y cymeriadau ac amlinelliad o'r storïau, trwy hyrwyddo'r gyfres yn ogystal â marchnata'r llyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymwybyddiaeth brand hefyd yn cael ei datblygu trwy ymgyrch amlgyfrwng helaeth wedi'i thargedu yn y ddwy iaith.</p>	<p>This project will establish brand awareness of the forthcoming '<i>The Neurons</i>' title series, characters and story outlines through promotion of the series as well as marketing the books in the Welsh- and English-languages. Brand awareness will also be built through an extensive and targeted multimedia campaign in both languages.</p>
<p><b>Gwasg Carreg Gwalch</b></p>	
<p>Elfen gyntaf y prosiect fydd galluogi Gwasg Carreg Gwalch i gyflogi unigolyn/unigolion o gwmni <i>Ar Goedd</i> i gydlynu gwaith marchnata'r Wasg rhwng Mai a Rhagfyr 2024. Nod ail elfen y prosiect yw defnyddio <i>Ar Goedd</i> i ddethol teitlau ar gyfer gwobrau rhyngwladol addas. Yn ogystal â hynny, bydd y prosiect yn datblygu'r gwaith o werthu teitlau dethol i weisg arbenigol o wledydd eraill.</p>	<p>The first element of the project will be to enable Gwasg Carreg Gwalch to employ an individual/individuals from the company <i>Ar Goedd</i> to coordinate the marketing work of the Press between May and December 2024. The second element of the Project aims to make use of <i>Ar Goedd</i>'s time to select titles for suitable international awards. In addition to that, the project will develop the work of selling selected titles to specialist presses from other countries.</p>
<p><b>Gwasg y Bwthyn: Sylfaen Gadarn, Llwybrau Newydd</b></p>	
<p>Bwriad prosiect '<i>Sylfaen Gadarn, Llwybrau Newydd</i>' yw cefnogi Gwasg y Bwthyn i archwilio llwybrau newydd at gynulleidfaoedd newydd yn sgil rhaglen o weithgareddau a gynllunnir o gwmpas tri llyfr a gyhoeddir rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2024. Cynlluniwyd yr elfen yma o</p>	<p>The intention of the '<i>Sylfaen Gadarn, Llwybrau Newydd</i>' ('Strong Foundation, New Paths') project is to support Gwasg y Bwthyn to explore new paths to new audiences as a result of a programme of activities planned around three books published between April and December</p>

<p>gwmpas tri theitl, pob un gan awdur newydd ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Bydd y rhain yn cael eu paratoi ar gyfer cynulleidfa eang na chaed llyfr Cymraeg tebyg ar ei chyfer o'r blaen.</p>	<p>2024. This element was designed around three titles, each by a new author and reaching new audiences. These will be prepared for a wide audience for whom there was no similar Welsh book before.</p>
<p><b>Gwasg y Bwthyn: Yma Rwyf Innau i Fod Cam 2 – Cyhoeddi a Chenhadu</b></p>	
<p>Nod y cynllun yw bod Gwasg y Bwthyn yn adeiladu ar lwyddiant prosiect a ariannwyd gan Gynulleidfaoedd Newydd 2, ac i gyhoeddi deunydd y prosiect 'Yma Rwyf Innau i Fod' ar ffurf cyfrol a fydd yn hygyrch i bobl tref Caernarfon a'r cyffiniau. Mae'r prosiect am roi perchnogaeth o'r llyfr hwn i'r trigolion ac yn arbennig y llu cyfranwyr o bob oed.</p>	<p>The aim of the plan is for Gwasg y Bwthyn to build on the success of a project funded by New Audiences 2, and to publish the material of the 'Yma Rwyf Innau i Fod' ('This is where I belong') project in the form of a volume that will be accessible to the people of the town of Caernarfon and the surrounding area. The project aims to give the residents, and especially the many contributors of all ages, ownership of this book.</p>
<p><b>Hanes Byw</b></p>	
<p>Nod y prosiect yma yw galluogi cylchgrawn <i>Hanes Byw</i> i barhau fel cylchgrawn i feithrin awduron newydd a'u datblygu'n awduron llyfrau cynnwys diwyllianol amrywiol, drwy eu comisiynu a'u harwain i ymchwilio ymhellach i'w eu meysydd.</p>	<p>The aim of this project is to enable <i>Hanes Byw</i> magazine to continue as a magazine to nurture new writers and to develop them into authors of books with diverse cultural content, by commissioning them and guiding them to research further in their fields.</p>
<p><b>Institute of Welsh Affairs (the welsh agenda)</b></p>	
<p>Bydd y prosiect yn cefnogi mewnbwn gan ein grŵp golygyddol ac yn talu am awduron ac artistiaid llawrydd i gyfrannu at ein cylchgrawn materion cyfoes a diwylliant <i>the welsh agenda</i>. Bydd y sefydliad yn defnyddio cyllid i gomisiynu cynnwys o ansawdd uchel gan ysgrifenydd llawrydd, cynnar eu gyrfa a thangyflogedig o fewn tudalennau <i>the welsh agenda</i>, gydag opsiwn ar gyfer sawl cyfraniadau neu golofn; cyfle a fydd yn rhan o alwad agored. Bydd y prosiect hefyd yn talu am fewnbwn grŵp golygyddol y Sefydliad Materion Cymreig i ddatblygu cynnwys, comisiynu, golygu a chyfraniadau i strategaeth olygyddol ehangach y cylchgrawn.</p>	<p>The project will support input from our editorial group and pay for freelance writers and artists to contribute to our current affairs and culture magazine <i>the welsh agenda</i>. The organisation will use funds to commission high-quality content from freelance, early career and underemployed writers within <i>the welsh agenda's</i> pages, with an option for multiple contributions or a column; an opportunity which will form part of an open callout. The project will also support payment for the IWA editorial group's input into content development, commissioning, editing and contributions to the magazine's wider editorial strategy.</p>

<b>Just Another Poet</b>	
Nod bras sianel YouTube <i>Just Another Poet</i> yw cynyddu nifer y darllenwyr barddoniaeth a chynyddu statws beirdd Cymru, ysbrydoli darllenwyr a chynnal y sgwrs am farddoniaeth a diwylliant llenyddol unigryw Cymru. Bydd y prosiect yn cefnogi gweithgareddau parhaus y sianel o ran dod o hyd i gyfweiliadau â beirdd, ffilmio lansiadau a digwyddiadau a hyrwyddo rhaglen nodwedd 'Seren Esgynnol', yn ogystal â datblygu ystod o nodweddion newydd.	The broad aim of the <i>Just Another Poet</i> YouTube channel is to increase the readership of poetry and the elevation of Welsh poets, inspire readers and sustain the conversation around Wales' unique poetry and literary culture. The project will support the channel's ongoing activities in sourcing poet interviews, filming launches and events and advancing the 'Seren Esgynnol' feature, as well as developing a range of new features.
<b>Lucent Dreaming: New Titles Book Promotion and Marketing</b>	
Bydd Lucent Dreaming yn creu cyfres o gyfweiliadau fideo, penodau podlediadau a fideos hysbysebu gyda thîm llawrydd o fideograffwyr, artistiaid a chyfranwyr eraill ar gyfer pob un o'u teitlau, gyda'r nod o lansio ar AM fel rhan o'u cynllun Cyhoeddwr y Mis. Bydd y prosiect yn cynnwys cynnal lansiadau hybrid a Zoom i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i farchnata holl deitlau Lucent Dreaming sydd i'w cyhoeddi yn 2024 a dechrau 2025, cyfanswm o saith teitl newydd, gan gynnwys ' <i>Beyond/Tu Hwnt: Anthology of Welsh Deaf and Disabled writers</i> '.	Lucent Dreaming will create a series of video interviews, podcast episodes and trailer videos with a freelance team of videographers, artists and other contributors for each of their titles, with the aim of launching on AM as part of their Publisher of the Month scheme. The project will include holding hybrid and Zoom launches to reach new audiences. Funding will also be used to market all of Lucent Dreaming's forthcoming titles due to be published in 2024 and early 2025, a total of seven new titles, including ' <i>Beyond/Tu Hwnt: Anthology of Welsh Deaf and Disabled writers</i> '.
<b>Lucent Dreaming: Anthology of Welsh Disabled writers</b>	
Bydd Lucent Dreaming yn comisiynu datblygu blodeugerdd ddwyieithog o'r enw <i>Beyond/Tu Hwnt: Blodeugerdd o Ysgrifenywyr Cymraeg Byddar ac Anabl</i> , wedi'i golygu gan Bethany Handley, Megan Angharad Hunter a Sioned Erin Hughes, gyda'r bwriad o'i chyhoeddi. Bydd y llyfr yn cynnwys gwaith dros 20 o gyfranwyr. Bydd y prosiect yn datblygu ysgrifennu i'w gyhoeddi gan awduron Byddar ac Anabl. Nod y flodeugerdd hon yw creu gofod ar gyfer, ac i roi ar gadw, leisiau cyfoethog ac amrywiol y Gymru gyfoes i genedlaethau'r dyfodol.	Lucent Dreaming will commission develop a bilingual anthology titled <i>Beyond/Tu Hwnt: Anthology of Welsh Deaf and Disabled Writers/Blodeugerdd o Ysgrifenywyr Cymraeg Byddar ac Anabl</i> , edited by Bethany Handley, Megan Angharad Hunter and Sioned Erin Hughes, with a view to publication. The book will feature work from 20+ contributors. The project will develop writing for publication from Deaf and Disabled writers. This anthology aims to create a space for, and preserve, the rich and diverse voices of contemporary Wales for the generations to come.

<b>Material Queer</b>	
Bydd <i>Material Queer</i> yn comisiynu ystod o newyddiadurwyr Cymraeg neu o Gymru i gyflwyno erthyglau mewn fformatau archwiliadol megis fideo neu sain er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar draws llwyfannau amryfal, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd yr alwad am gyflwyniadau yn digwydd ledled y wlad. Bydd y newyddiadurwyr a ddewisir yn cael cyfleoedd ar gyfer cysylltiad a dysgu a byddant yn cael eu mentora trwy gydol eu comisiwn. Nod <i>Material Queer</i> yw arallgyfeirio nid yn unig y newyddion, ond pwy sy'n ei adrodd a sut, yng Nghymru; gan greu newid strwythurol pwysig a fydd yn y pen draw yn cryfhau'r diwydiant.	<i>Material Queer</i> will commission a range of Welsh or Wales-based journalists to deliver articles in explorative formats such as video or audio in order to reach new audiences across multiple platforms, with a particular focus on social media. The call-out for submissions will be nationwide. The journalists selected will be provided opportunities for connection and learning and will be mentored throughout their commission. <i>Material Queer's</i> aim is to diversify not just the news, but who tells it and how, in Wales; creating important structural change which will ultimately strengthen the industry.
<b>Merched y Wawr</b>	
Mae'r prosiect <i>Lleisiau Newydd yn Gwawrio</i> yn ceisio cynnig cyfleoedd amrywiol a niferus i leisiau newydd gyhoeddi yn y wasg gyfnodol o fewn cloriau cylchgrawn <i>Y Wawr</i> yn ogystal â'u platfformau digidol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnig cyfleoedd o'r newydd i danysgrifwyr y cylchgrawn i gyflwyno gweithiau i'w cyhoeddi drwy gynnal cyfres o weithdai a chyfleoedd mentora gydag awduron profiadol a fydd yn rhoi hwb i hyder a'r awydd i gyhoeddi.	The <i>Lleisiau Newydd yn Gwawrio</i> (' <i>New Voices Dawning</i> ') project aims to offer diverse and numerous opportunities for new voices to publish in the periodical press within the covers of <i>Y Wawr</i> magazine as well as on their digital platforms. The project will also offer new opportunities to the magazine's subscribers to submit works for publication by holding a series of workshops and mentoring opportunities with experienced writers that will encourage confidence and the desire to publish.
<b>MODRON Magazine</b>	
Mae cylchgrawn <i>MODRON</i> yn cynnig pecyn i gefnogi cynnwys dwyieithog, gan roi hwb i awduron sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol yn y byd cyhoeddi. Bydd hyn yn cwmpasu datblygu cynnwys digidol parhaus drwy weithgareddau comisiynu pellach, creu dwy ffilm newydd ar awduron Cymreig ar farddoniaeth a natur yng Nghymru i'w rhyddhau ar-lein, a datblygu mwy o gynnwys dwyieithog gan gynnwys cyfres o gyfweiliadau o dan arweiniad Siân Melangell Dafydd a Taz Rahman a chyfieithiadau Cymraeg o farddoniaeth mewn rhifynnau i ddod.	<i>MODRON</i> Magazine propose a package to support bilingual content, bolstering writers traditionally underrepresented in publishing. This will include developing ongoing digital content through further commissioning activities, the creation of two new films on Welsh writers on poetry and nature in Wales for online release and developing increased bilingual content including an interview series led by Siân Melangell Dafydd and Taz Rahman and Cymraeg translation of poetry in forthcoming issues.

<b>Nation.Cymru: Talent development programme</b>	
<p>Nod <i>Nation.Cymru</i> yw datblygu ei raglen datblygu talent drwy barhau i chwilio am ac annog lleisiau newydd, meithrin awduron ac adeiladu ar fuddsoddiadau a wnaed eisoes mewn talent greadigol. Bydd y prosiect yn galluogi <i>Nation.Cymru</i> i barhau i gefnogi talent newydd a heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig awduron anabl, LHDTC+, niwroamrywiol, a'r mwyafrif byd-eang. Bydd yr awduron/ysgrifennwyr a gafodd eu meithrin drwy ddwy rownd gyntaf Cynulleidfaoedd Newydd hefyd yn parhau i gael cymorth, datblygiad a chomisiynau rheolaidd gyda tâl. Yn ogystal, bydd y prosiect yn caniatáu i <i>Nation.Cymru</i> ehangu'n sylweddol eu cynnwys Cymraeg a'u cwmpas yn Saesneg.</p>	<p><i>Nation.Cymru</i> aims to advance its talent development programme by continuing to look for and encourage new voices, cultivate writers and build on investments already made in creative talent. The project will enable <i>Nation.Cymru</i> to continue to support new and under-represented talent, particularly disabled, LGBTQ+, neurodiverse and global majority writers. The authors/writers nurtured through the first two rounds of New Audiences funding will also continue to receive support, development and regular paid commissions. Additionally, the project will allow <i>Nation.Cymru</i> to expand considerably their Welsh language content and coverage in English.</p>
<b>Nation.Cymru: Welsh-language booster</b>	
<p>Bydd y prosiect iaith Gymraeg yn cefnogi <i>Nation.Cymru</i> i gyflogi newyddiadurwr Cymraeg amser llawn, ac i gyflogi gohebydd llawrydd ymroddedig i weithio yn Eisteddfod Genedlaethol 2024. Cadarnhaodd ymchwil cynulleidfa ddiweddaraf <i>Nation.Cymru</i> fod tua 40% o'u darllenwyr yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg i ryw raddau, gan eu gwneud yn ddemograffeg allweddol yn ogystal â bodloni ymrwymiad a wnaed eisoes gan <i>Nation</i> i roi sylw i ddiwylliant Cymru yn y ddwy iaith. Bydd y prosiect hwn yn eu galluogi i lenwi'r bwlch a grëwyd yn sgil colli aelod allweddol o'r tîm yn ystod y flwyddyn flaenorol ac i ehangu ymhellach ei gynnwys Cymraeg a'r sylw i faterion Cymraeg yn Saesneg.</p>	<p>The Welsh-language project will support <i>Nation.Cymru</i> in employing a full-time Welsh-speaking journalist, and in employing a dedicated freelance reporter to cover the 2024 National Eisteddfod. <i>Nation.Cymru's</i> most recent audience research confirmed around 40% of their readers describe themselves as Welsh speakers to some degree, making them a key demographic as well as meeting Nation's pre-existing commitment to cover Welsh culture in both languages. This project will enable them to fill the gap created by the loss of a key member of the team during the previous year and to expand still further its Welsh-language content and coverage of Welsh-language matters in English.</p>
<b>Paned o Gê</b>	
<p>Prif nod cynllun Paned o Gê yw golygu a chyhoeddi'r monologau gwreiddiol a gomisiynwyd gan wyth ysgrifennwr LHDTC+ ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol 2023 a 2024 fel cylchgrawn.</p>	<p>The chief aim of the Paned o Gê scheme is to edit and publish the original monologues commissioned by eight LGBTQ+ writers for the 2023 and 2024 National Eisteddfod as a zine.</p>



<b>Parthian Books: The Conversation – Reading Wales through our writers / contemporary and classic</b>	
Bydd “The Conversation – Reading Wales through our writers / contemporary and classic” yn gyfres wedi’i churadu o sgysiau gydag awduron a beirniaid ar ystod o bynciau a themâu, a fydd yn dod â sylw newydd a chynnil i waith awduron Parthian Books. Bydd y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â siopau llyfrau annibynnol gyda golwg ar greu cynulleidfaoedd newydd ac ymgysylltu â ffocws a hyrwyddo.	“The Conversation – Reading Wales through our writers / contemporary and classic” is to be a curated series of conversations with writers and critics on a range of topics and themes, which will bring new and nuanced attention to the work of Parthian Books’ writers. These discussions will be held in cooperation with independent bookshops with a view to generating new audiences and engagement with a focused attention and promotion.
<b>Parthian Books: Writing Back Home – Refugee Voices from Wales</b>	
Bydd y prosiect hwn yn cefnogi costau cyhoeddi ‘Writing Back Home’; blodeugerdd o lythyrau a gyfeiriwyd at famwlad yr awduron yn Syria ac yn cynnwys cyfraniadau a gasglwyd gan gymuned ffoaduriaid Syria yn Aberystwyth yn ogystal â galwad ehangach am gyflwyniadau.	This project will support the publication costs of ‘Writing Back Home’; an anthology of letters addressed to the writers’ homeland of Syria and made up of contributions gathered from Aberystwyth’s Syrian refugee community as well as a wider call for submissions.
<b>Poetry Wales: 60 Year Anniversary Promotion</b>	
Bydd <i>Poetry Wales</i> yn cynnal gweithgareddau marchnata i hybu proffil y cylchgrawn ym mlwyddyn ei ben-blwydd yn 60 oed. Bydd y pecyn i gefnogi rhifyn Pen-blwydd 60 yn cynnwys ymgynghoriad marchnata proffesiynol, datblygu tri fideo ar gyfer marchnata ar-lein a digidol i dynnu sylw at rôl hanfodol <i>Poetry Wales</i> yn hanes cyfoethog cyhoeddi a barddoniaeth Cymru, a nodweddion arbennig o fewn y rhifyn Pen-blwydd megis adolygiadau <i>quickfire</i> gan gyn-olygyddion y cylchgrawn yn ogystal ag enwogion Cymreig ym myd y celfyddydau.	<i>Poetry Wales</i> will undertake marketing activities to boost the magazine’s profile in their 60th anniversary year. The package to support the 60th Anniversary issue will include professional marketing consultation, the development of three videos for online and digital marketing to highlight <i>Poetry Wales</i> ’ essential role in Wales’ rich history of publishing and poetry, and special features within the Anniversary issue such as quickfire reviews by ex-editors of the magazine as well as Welsh celebrities in the arts.
<b>Poetry Wales: Poetry Wales 60 Years</b>	
Bydd y prosiect yn cefnogi <i>Poetry Wales</i> i greu tair rôl newydd yn benodol ar gyfer awduron sydd wedi’u tangynrychioli’n draddodiadol ym myd cyhoeddi. Bydd y tair rôl hyn yn rhedeg o fis Mai i fis Rhagfyr 2024 a byddant yn blaenoriaethu gwaith ar rifyn Tachwedd o <i>Poetry Wales</i> gyda rhywfaint o gymorth pellach ar y rhifyn 60 mlynedd. Bydd <i>Poetry Wales</i> hefyd yn dyrannu cyllid prosiect tuag at weithdai perfformio barddoniaeth i hyrwyddo awduron Cymreig newydd a sesiynau hyfforddi ar gyfer y	The project will support <i>Poetry Wales</i> in creating three new roles specifically for writers traditionally marginalized in publishing. All three of these roles will run from May to December 2024 and will prioritise work on the November issue of <i>Poetry Wales</i> with some further assistance on the 60th Anniversary issue. <i>Poetry Wales</i> will also allocate project funds towards performance-of-poetry workshops to promote new Welsh writers and training sessions for the

staff newydd ar waith golygyddol, cynhyrchu a golygu ymarferol.	new staff on editorial, production and practical editing.
<b>PYST Cyf</b>	
Mi fydd PYST Cyf yn peilota cynllun newydd i farchnata amrywiol lyfrau, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2024 byddant yn comisiynu ac yn cynhyrchu un ffilm fer sydd yn hyrwyddo un llyfr yn ddigidol. Bydd y ffilm yn cael ei darlledu ar dudalen hafan AM a'i rhannu gyda'n defnyddwyr drwy gyfryngau cymdeithasol, hysbysiadau ar Ap AM, cylchlythyron e-bost a hysbysebion yn y wasg, ymysg cyfleoedd marchnata eraill.	PYST Cyf will be piloting a new scheme to market various books in Welsh and English. Between May and December 2024, they will commission and produce one short film that digitally promotes one book. The film will be broadcast on the AM homepage and shared with our users through social media, notifications on the AM App, email newsletters and press ads, among other marketing opportunities.
<b>Rily: Marketing Plan 2024</b>	
Mae prosiect Rily yn cwmpasu datblygu a chyflwyno rhaglen farchnata fanwl i ehangu ymwybyddiaeth y cyhoedd o Rily a'r llyfrau y maent yn eu cyhoeddi. Bydd y prosiect yn canolbwyntio i ddechrau ar hyrwyddo rhestr lyfrau bresennol Rily; ond bydd wedyn yn ceisio darparu hyrwyddiadau marchnata amserol a phwrpasol ar gyfer teitlau newydd. Mae'r rhain yn amrywio o ddathlu chwedlau Cymraeg clasurol o'r Mabinogi i addasiad o'r stori LHDTC+ arloesol, <i>Heartstopper</i> , gan geisio cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt wedi llwyddo i'w cyrraedd o'r blaen a chyflwyno mythau Cymreig i gynulleidfa Saesneg ei hiaith.	Rily's project encompasses the development and delivery of a detailed marketing programme to extend public awareness of Rily and the books it publishes. The project will initially focus on promoting Rily's existing book list; but will then aim to deliver timely and bespoke marketing promotions for new titles. These range from a celebration of classic Welsh tales from the Mabinogi to an adaptation of the groundbreaking LGBTQ+ story, <i>Heartstopper</i> , reaching out to audiences we have not successfully reached before and introducing Welsh myths to an English-language audience.
<b>Rily: People of Wales</b>	
Bydd Rily yn datblygu hanes lliwgar, darluniadol iawn, cynhwysfawr a chwbl integredig o Gymru, gan gynnwys straeon perthnasol o gymunedau BAME yng Nghymru, i helpu i ysbrydoli ymdeimlad cryfach o 'gynefin' a pherthyn yn ein plant cynradd, sy'n elfen bwysig o'r Cwricwlwm Cymraeg.	Rily will develop a colourful, highly illustrated, comprehensive and fully integrated history of Wales, including relevant stories from BAME communities in Wales, to help inspire a stronger feeling of 'cynefin' and belonging in our primary school children, an important element of Curriculum Cymraeg.
<b>Romani Cultural and Arts Company</b>	
Mae <i>Gypsy Writers: An Anthology of New Welsh Writing</i> yn parhau â phrosiect ysgrifennu creadigol arloesol The Romani Cultural and Arts Company, 'Gypsy Writers'. Bydd y prosiect newydd yn cynnwys hyd at bedwar o gywawduron Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT) o Gymru gan goladu eu gwaith o dan stiwardiaeth	<i>Gypsy Writers: An Anthology of New Welsh Writing</i> continues The Romani Cultural and Arts Company's trailblazing creative writing project 'Gypsy Writers'. The new project will involve up to four Welsh GRT emerging writers collating their work under the stewardship of an experienced academic mentor in a new printed

<p>mentor academaidd profiadol mewn blodeugerdd brintiedig newydd. Mae'r prosiect hwn yn uwchsgilio ac yn dathlu talent lenyddol SRT ac yn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd yn ehangach.</p>	<p>anthology. This project upskills and celebrates GRT literary talent and makes it available to a broader public.</p>
<p><b>Seren Books: Change from Within</b></p>	
<p>Drwy'r prosiect hwn, bydd Seren yn penodi unigolyn ar ddechrau ei yrfa sydd â phrofiad byw o hiliaeth, ablaeth a/neu dlodi fel Golygydd Desg yn Seren lle byddant yn cael profiad uniongyrchol o weithio yn y fasnach lyfrau yng Nghymru. Bydd y rôl yn cynnwys uwchsgilio mewn golygu copi a golygu creadigol trwy fentora a chwrs hyfforddi byr. Gyda chymorth mentor, byddant hefyd yn arwain prosiect i gomisiynu teitlau ffuglen a ffeithiol newydd gan awduron sydd wedi cael profiad byw o hiliaeth, ablaeth a/neu dlodi trwy alwad agored. Yna bydd yr awduron llwyddiannus a'r Golygydd Desg yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu cynigion yn gynigion cyhoeddi ar gyfer rhaglen gyhoeddi Seren 2025/26.</p>	<p>Through this project, Seren will appoint an early-career individual with lived experience of racism, ableism and/or poverty as a Desk Editor at Seren where they will gain first-hand experience of working within the book trade in Wales. The role will include upskilling in copy and creative-editing through mentoring and a short training course. With mentor support, they will also lead a project to commission new fiction and non-fiction titles by writers who have lived experience of racism, ableism and/or poverty via an open call-out. Successful writers and the Desk Editor will then be supported to develop their pitches into publication proposals for Seren's 2025/26 publishing programme.</p>
<p><b>Seren Books: Elizabeth Walter – An Introduction to Seren Welsh Gothic</b></p>	
<p>Ym mis Hydref 2024, mae Seren i gyhoeddi <i>Let a Sleeping Witch Lie: Welsh Gothic Stories</i> sef casgliad o storïau ysbryd wedi'u gosod yng Nghymru gan yr awdures Gymreig Elizabeth Walter yn yr 20fed ganrif. Wedi'i olygu gan Nick Freeman, bydd y llyfr yn ailgyflwyno gwaith Walter i ddarllenwyr modern a dyma'r llyfr cyntaf mewn cyfres newydd: Seren Welsh Gothic. Fel rhan o'r prosiect, bydd Seren yn comisiynu cwmni ffilm ac actorion i greu cyfres o hysbysebion hyrwyddo byr ar gyfer y llyfr, cyn cynnal digwyddiad lansio atmosfferig yng Nghymru gyda pherfformiadau byw o waith Walter a thrafodaeth holi ac ateb am y llyfr a'r Traddodiad Gothig Cymreig.</p>	<p>In October 2024, Seren is due to publish <i>Let a Sleeping Witch Lie: Welsh Gothic Stories</i> a collection of ghost stories set in Wales by 20th century Welsh writer Elizabeth Walter. Edited by Nick Freeman, the book will re-introduce Walter's work to modern readers and will be the first book in a new series: Seren Welsh Gothic. As part of the project, Seren will commission a film company and actors to create a set of short promotional trailers for the book, ahead of hosting an atmospheric launch event in Wales with live performances of Walter's work and a Q&amp;A discussion about the book and the Welsh Gothic tradition.</p>
<p><b>Sôn am Lyfra</b></p>	
<p>Mae'r wefan <i>Sôn am Lyfra</i> yn darparu adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc ac yn hyrwyddo llyfrau Cymraeg, y cyhoeddwr a'r awduron. Bwriad y prosiect hwn yw datblygu fersiwn newydd a phroffesiynol o'r wefan, gan ddefnyddio cwmni datblygu gwefan</p>	<p>The website <i>Sôn am Lyfra</i> provides bilingual reviews of Welsh books for children and young people and promotes Welsh-language books, the publishers and the authors. The intention of this project is to develop a new and professional version of the website, using a website</p>

<p>i wneud hynny, gan ychwanegu mwy o nodweddion. Bydd y prosiect hefyd yn cyflogi swyddog i olygu ac i greu a chymedroli cynnwys ar gyfer y wefan a cheisio cael pobl ifanc i gyfrannu adolygiadau. Bydd y swyddog yn cydweithio â'r dylunydd gwefan i sicrhau fod y wefan yn cael ei hadeiladu mewn modd sy'n cyflawni'r anghenion ond sydd hefyd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>development company to do so, through adding enhanced features. The project will also employ an officer to edit and create and moderate content for the website and encourage young people to contribute reviews. The officer will work together with the website designer to ensure that the website is built in a way that fulfils its needs but is also sustainable for the future.</p>
<p><b>These Pages Sing</b></p>	
<p>Mae'r prosiect <i>These Pages Sing</i> yn eni cylchgrawn llenyddol chwarterol Saesneg newydd ar gyfer beirdd, awduron straeon byrion ac awduron ffuglen a aned yng Nghymru. Bydd y cylchgrawn yn rhoi blaenoriaeth i leisiau dyrchafol, di-glod Cymru a bydd yn ymroddedig i gynwysoldeb ac amrywiaeth i fanteisio ar y diwylliant rhyfeddol o wahanol ac unigryw a ddatblygwyd yma yng Nghymru. Bydd y prosiect yn ariannu dau rifyn cyntaf y cylchgrawn, a fydd yn caniatáu i ddeugain o seiri geiriau Cymreig weld eu gwaith mewn cylchgrawn llenyddol sy'n ymroddedig i hyrwyddo eu lleisiau.</p>	<p>The project <i>These Pages Sing</i> is the birth of a new quarterly English-language literary magazine for Welsh-born poets, short story writers, and fiction authors. The zine will prioritise uplifting, unsung Welsh voices and will be committed to inclusivity and diversity to capitalise on the wonderfully different and unique culture developed here in Wales. The project will fund the first two issues of the magazine, which will allow forty Welsh wordsmiths to see their work in a literary magazine dedicated to championing their voices.</p>
<p><b>Urdd Gobaith Cymru</b></p>	
<p>Bwriad yr Urdd yw cynnig cyfle i ddatblygu a mentora person ifanc i gyfrannu cartwnau i gylchgrawn <i>Cip</i> a meithrin doniau a sgiliau fydd yn cyfrannu at y byd cyhoeddi yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn yn cynnig cyfleoedd mentora gydag unigolion profiadol ac ysbrydoledig gyda'r nod o ddatblygu'r gallu i ddweud stori drwy gyfrwng geiriau a darluniau.</p>	<p>The Urdd's intention is to offer an opportunity to develop and mentor a young person to contribute cartoons to <i>Cip</i> magazine and nurture talents and skills that will contribute to the publishing world in Wales in the future. We will offer mentoring opportunities with experienced and inspiring individuals with the aim of developing the ability to tell a story through words and pictures.</p>

<b>Y Cymro</b>	
<p>Fe fydd y prosiect yn galluogi'r <i>Cymro</i> i greu dau ddarn barn a newyddiadurol amrywiol newydd, o safon ac o ddiddordeb cyhoeddus ar blatfformau <i>Y Cymro</i> bob mis. Bydd o leiaf hanner y darnau yma yn cael eu creu drwy barhau i gydweithio a meithrin y berthynas a'r mentora mae'r cylchgrawn wedi eu datblygu gyda ysgrifenydd newydd eisoes. Bydd yr hanner arall yn ddarnau arbennig a mwy ymchwiliol-newyddiadurol gan leisiau newydd lle y bo'n bosibl. Bydd y gwaith yn digwydd rhwng dechrau mis Gorffennaf 2024 a diwedd mis Rhagfyr 2024.</p>	<p>The project will enable the creation of two new, high-quality and diverse pieces of opinion and journalism on <i>Y Cymro</i> platforms every month. At least half of these pieces will be created by continuing to work with and foster the relationship and mentoring previously developed with new writers. The other half will be special investigative-journalistic pieces, authored by new voices where possible. The work will take place between July 2024 and the end of December 2024.</p>
<b>Y Lolfa: Hyrwydddydd Y Lolfa</b>	
<p>Bwriad y prosiect yw cyflogi un person am bedwar diwrnod yr wythnos i hyrwyddo a marchnata llyfrau Y Lolfa am gyfnod o chwe mis, ac un person i wneud gwaith llawrydd ar yr ochr ddigidol/cyfryngau cymdeithasol. Bydd y person cyflogedig yn hyrwyddo ystod eang o deitlau'r Lolfa yn cynnwys rhai wedi eu cyhoeddi am a gan bobl o gefndiroedd amrywiol. Bydd y cynllun yn hwyluso gwaith marchnata Y Lolfa mewn nifer o ffyrdd ac yn sicrhau bod y cyhoeddwr yn datblygu cynnwys ar TikTok, Instagram, Facebook ac Amazon yn ogystal.</p>	<p>The intention of the project is to employ one person for four days a week to promote and market <i>Y Lolfa's</i> books for a period of six months, and one person to do freelance work on the digital/social media side. The employed person will promote a wide range of <i>Y Lolfa</i> titles including those published about and by people from diverse backgrounds. The project will facilitate <i>Y Lolfa's</i> marketing work in a number of ways and ensure that the publisher develops content on TikTok, Instagram, Facebook and Amazon as well.</p>
<b>Y Lolfa: Llwyfan Llyfrau Y Lolfa</b>	
<p>Bwriad y prosiect yw galluogi Y Lolfa i gyhoeddi a hyrwyddo dau lyfr fydd yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.</p>	<p>The aim of the project is to enable Y Lolfa to publish and promote two books that will reach new audiences.</p>
<b>Y Selar</b>	
<p>Hanfod y prosiect fydd mynd at bobl ifanc yn uniongyrchol i gynnal sesiynau a gweithdai fydd yn eu hysgogi i drafod a mynegi barn am gerddoriaeth Gymraeg. Bydd y sesiynau hyn yn digwydd mewn ysgolion, gyda grwpiau ieuencid amrywiol ac fel rhan o ddigwyddiadau penodol. Y nod fydd manteisio ar y cyffro sy'n cael ei greu gan gerddoriaeth fyw er mwyn annog pobl ifanc i greu cynnwys am gerddoriaeth ar blatfformau amrywiol – boed yn ysgrifenedig, ar ffurf sain, neu fideo.</p>	<p>The essence of the project will be to approach young people directly to hold sessions and workshops that will encourage them to discuss and express opinions about Welsh-language music. These sessions will take place in schools, with various youth groups, and as part of specific events. The aim will be to take advantage of the excitement created by live music in order to encourage young people to create content about music on various platforms – whether written, in audio or video form.</p>